# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Medi 2012

# Eisteddfod y Bobl Ifanc 2012



Roedd canolfan hamdden y Gaiman dan ei sang ganol fis Medi, gan mai dyna lle cynhaliwyd Eisteddfod y Bobl Ifanc 2012.

Bu'r plant a'r bobl ifanc, eu rhieni a'u hathrawon yn brysur tu hwnt am fisoedd yn paratoi at y gwahanol gystadlaethau - canu, adrodd, a dawnsio gwerin. Am y tro cyntaf eleni, cynhaliwyd rhagbrofion rhai o'r cystadlaethau hyn mewn gwahanol ranbarthau ymlaen llaw. Am naw o'r gloch fore Iau y 13eg o Fedi dechreuodd y rhagbrofion olaf yng nghanolfan hamdden y Gaiman, ac erbyn diwedd y prynhawn roedd yr enwau llwyddiannus wedi cael eu dewis.

Roedd y nerfau a'r cyffro yn amlwg_wrth i ddrysau'r ganolfan hamdden agor am hanner awr wedi pump brynhawn Gwener y 14eg o Fedi, a nifer wedi cyrraedd yn gynnar er mwyn cael seddi da ar gyfer noson o adloniant. Yng nghyntedd y neuadd roedd arddangosfa o waith y cystadlaethau celf, ac roedd y llwyfan wedi cael ei haddurno yn lliwgar a deniadol.



Agorodd Santiago Meza a Guillermo Thomas, sef arweinwyr y noson, Eisteddfod y Bobl Ifanc o'r llwyfan cyn i Tamara a Yamila Gómez arwain y gynulleidfa mewn gair o weddi yn Gymraeg ac yn Sbaeneg. Yn dilyn hyn canwyd anthem yr Ariannin dan arweiniad Gonzalo Villalba ac i gyfeiliant Hector Ariel Macdonald ar yr allweddellau, ac yna roedd munud o dawelwch i gofio'r sawl sydd wedi ein gadael ni. Cafodd Santiago Palacios Zampini o'r Gaiman, sydd bellach yn astudio yn Buenos Aires, ei anrhydeddu gan bwyllgor yr eisteddfod am ei waith a'i gyfraniad i ddiwylliant yr ardal. Yna llanwyd y llwyfan wrth i gôr ieuenctid yr Ysgol Gerdd, Carlos Dante Ferrari a Hogia'r Wilber dalu teyrnged i'r cerddor enwog, Atahualpa Yupanqui a fu farw ugain mlynedd yn ôl.

Dechreuodd y cystadlu gyda phobl ifanc yn dod i'r llwyfan yn eu tro mewn amrywiaeth o gystadlaethau, yn adrodd, canu, dawnsio gwerin, eitemau offerynnol, partïon a chorau. Roedd tasg anodd yn wynebu'r beirniaid - Gonzalo Villalba (Mendoza) a Mónica Williams yn yr adran gerddoriaeth cyfrwng Sbaeneg, Glori Puw a Mary Zampini yn y gerddoriaeth cyfrwng Cymraeg, Viviana Ayilef a Laura Casariego yn yr adrodd Sbaeneg, a Lois Dafydd yr adrodd Cymraeg gyda Laura Henry a Nivia Owen yn cyfieithu ei beirniadaethau. Bu beirniaid eraill wrthi cyn y penwythnos hwnnw yng nghategorïau'r gwaith cartref - celf, cyfieithu, barddoni, llenydda, ffotograffiaeth - a chyhoeddwyd canlyniadau'r rhain o'r llwyfan drwy gydol yr eisteddfod. I gloi'r noson, cododd pawb ar eu traed i ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' dan arweiniad Gladys Thomas.



(Parhad ar yr ail dudalen...)

Lois Dafydd



Dychwelodd nifer i'r ganolfan hamdden yn brydlon y diwrnod canlynol ar gyfer ail ddiwrnod o gystadlu, a rhannodd Maite Arce Thomas ac Elin Brunt air o weddi gyda'r gynulleidfa i agor yr eisteddfod am ddau o'r gloch brynhawn Sadwrn y 15fed o Fedi. Ar ôl canu anthem yr Ariannin daeth tro'r plant ieuengaf i gystadlu a phlant mor ifanc â thair oed yn canu ac yn adrodd o flaen cynulleidfa doreithiog. Caren Jones a Sonia Baliente oedd arweinwyr y prynhawn, gan wahodd llond y lle o gystadleuwyr ifanc i'r llwyfan yn eu tro, yn ogystal â chyhoeddi enillwyr y gwahanol gategorïau gwaith cartref.




Am chwech o'r gloch cyhoeddwyd awr o egwyl, ac roedd cyfle i fwynhau paned o de a phlât o fara menyn a chacennau yn neuadd uchaf y ganolfan hamdden, wrth i gôr cymysg yr Ysgol Gerdd gynnal te. Roedd hyn hefyd yn gyfle i rai cystadleuwyr ymarfer cyn ymddangos ar y llwyfan yn ystod y nos!

Dechreuodd sesiwn ola'r eisteddfod am saith o'r gloch, ac roedd gweddill y noson dan ofal Santiago Palacios a Glenda Thomas. Agorodd y rhan hon gan y grŵp o Gymru, Cowbois Rhos Botwnnog, a ganodd dair cân o'r llwyfan. Cawson nhw gymeradwyaeth gynnes iawn gan y gynulleidfa. Yna, yn dilyn ambell gystadleuaeth a beirniadaeth cynhaliwyd prif seremoni'r eisteddfod, sef Y Fedal. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr lunio cerdd Sbaeneg ar destun agored, a chyhoeddodd Gladys Thomas mai 'Neidr Felen' oedd y bardd buddugol, sef Gonzalo Lizama o'r Gaiman. Dyma'r ail dro yn olynol i Gonzalo ennill Y Fedal, a chafodd ei dywys i'r llwyfan gan Mayra Handley, Matias Martinez, ac Emilia Santana Meza. Mae'r gerdd, 'Pica' yn sôn am dlodi'r wlad a'r modd mae plant yn byw mewn tlodi. Cyflwynwyd y fedal iddo gan Faer y Gaiman, Gabriel Restucha, a rhoddodd Glenda Thomas dorch o flodau o amgylch wddf y prifardd. Talwyd teyrnged i'r prifardd ar gân gan Santiago Palacios, ac yna perfformiodd merched lleol y ddawns flodau, wedi eu hyfforddi gan Sonia Sanchez ac Ariela Gibbon.



Aeth yr eisteddfod rhagddi gyda gweddill y cystadlu trwy gydol y noson, ac ar ôl i bob adroddwr, canwr, offerynnwr a dawnsiwr berfformio daeth hi'n amser cyhoeddi prif enillydd pob adran. Dylan Hughes o Drelew oedd y prif adroddwr cyfrwng Sbaeneg, a Martin Hughes o'r Gaiman yn y cyfrwng Cymraeg, a Gary Pugh o'r Gaiman enillodd yn y categori cerddorol. Am un o'r gloch y bore, arweiniodd Mirna Jones y gynulleidfa i ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' a gyda hynny daeth yr eisteddfod i ben am flwyddyn arall.






Mae rhaglen Eisteddfod y Bobl Ifanc 2013 ar gael nawr!

Llongyfarchiadau I'r cystadleuwyr a'u hyfforddwyr, ac i'r pwyllgor am eu gwaith!




# Llongyfarchiadau i bawb!

*Cynhaliwyd dwy gymanfa ganu yn y dyffryn fis Medi, a dyma eu hanes...*

# Cymanfa Ganu Capel Bethlehem, Treorci



Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant ychydig yn gynharach na'r arfer ym mis Medi, a hynny gan fod Eisteddfod y Bobl Ifanc a phenwythnos hir o wyliau ddiwedd y mis. Felly am bedwar o'r gloch ar brynhawn Sadwrn y nawfed o Fedi agorodd drysau Capel Bethlehem Treorci i groesawu nifer o bobl i lenwi'r ystafell, a hynny i gyfeiliant David Pacheco ar y sacsoffon a Liz Suarez ar yr organ. Yn dilyn gair o groeso gan Rebeca White, dechreuodd y canu dan arweiniad Soraya Griffiths. Yr arweinwyr eraill oedd Gladys Thomas, Edith Macdonald, a Rebeca White, a chanwyd detholiad o emynau Cymraeg a Sbaeneg.

Yn ychwanegol at y canu cynulleidfaol, cafwyd dau berfformiad ym mlaen y capel. Canodd Billy Hughes gerdd 'Capel Fy Mam' gan Irma Hughes de Jones dan ganu'r gitâr, a pherfformiodd y band Cowbois Rhos Botwnnog yr emyn boblogaidd 'Dwy Law yn Erfyn' i gyfeiliant gitâr a bongos.



Darllenodd Ariela Gibbon o lyfr yr Hebreaid gyda'r Parch. David Pacheco yn rhannu neges gyda'r gynulleidfa yn seiliedig ar hynny. Gweddïodd Lois Dafydd yn dilyn yr offrwm a daeth y gymanfa i'w therfyn wrth i bawb ganu Cwm Rhondda—cyn dychwelyd i'r festri i sgwrsio dros baned o de a chacennau oedd wedi cael eu paratoi gan aelodau Capel Bethlehem Treorci.

# Cymanfa Ganu Eisteddfod y Bobl Ifanc

Er bod Eisteddfod y Bobl Ifanc wedi dod i ben yn ystod oriau mân fore Sul yr 16eg o Fedi, parhaodd y canu wrth i nifer ymuno yng Nghymanfa Ganu'r eisteddfod yng Nghapel Bethel y Gaiman ychydig oriau yn ddiweddarach.



Cafodd y gymanfa ei threfnu gan Glenda Thomas, ac Ariela Gibbon arweiniodd yr emynau cyntaf cyn i Tirsa Gonzalez (Cymraeg) a Lisa Hughes (Sbaeneg) ddarllen Salm 138. Arweiniodd Mirna Jones, Soraya Griffiths, Rebeca White a Judith Jones y gynulleidfa i ganu amryw emynau hefyd, a daeth pobl ifanc Bethel, Côr Plant yr Ysgol Gerdd, a Chôr Ieuenctid yr Ysgol Gerdd i'r blaen yn eu tro i ganu.

Rhannodd Lois Dafydd air o weddi yn y Gymraeg cyn i Liliana Lloyd weddïo yn Sbaeneg, a rhannodd y Parch. Carlos Ruiz neges yn seiliedig ar Salm 138 a ddarllenwyd yn gynharach. Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r offrwm, daeth Ana Pinciroli i flaen y capel i ddiolch i bawb am eu cyfraniad i Eisteddfod y Bobl Ifanc ac ran y pwyllgor gwaith.

Ar ôl i Rebeca White arwain yr emyn olaf, gadawodd pawb y capel i sgwrsio gyda'i gilydd y tu allan. Mae'n siŵr fod ambell un wedi dychwelyd i'r gwely yn dilyn penwythnos prysur dros ben, ond un oedd yn llawn mwynhad!



# Holi Ricardo Irianni...

1. **O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
   *Cefais fy ngeni yn Buenos Aires, ond dwi'n byw yn y Gaiman. Symudais i Ddyffryn Camwy yn 1987 oherwydd i mi briodi.*

2. **Beth ydy eich atgof cynharaf?**
   *Pan oeddwn i'n 4 oed doeddwn i ddim eisiau mynd i'r ysgol achos byddai fy mrawd yn cael ei eni yn fuan!*

3. **Ble, sut a pham ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Yn y cartref efo Mam, Nain a Taid; ac yn ddiweddarach yng Nghymru gyda ffrindiau.*

4. **Pa un yw eich hoff air Cymraeg?** *Annibyniaeth.*

5. **Beth ydy eich swydd?**
   *Dwi'n gwerthu hadau, cynhyrchu cig eidion, ac yn rhoi cyngor i ffermwyr.*

6. **Beth ydych chi'n gweld ei eisiau am fyw yn Buenos Aires??**
   *Dwi'n gweld eisiau treulio amser gyda theulu a ffrindiau o fy ieuenctid sy'n byw ym Muenos Aires.*

7. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi gwneud?**
   *Dwi'n hoffi chwarae pêl-droed a choginio asado. Dwi ddim yn hoffi peidio gwneud rhywbeth!*

8. **Beth ydy eich hoff/cas fwyd?**
   *Dwi'n hoffi milanesas, ond dwi ddim yn hoffi ffigys mewn surop.*

9. **Ydych chi wedi bod i Gymru?**
   *Es i i Gymru am y tro cyntaf yn 1998 am flwyddyn, achos enillais i ysgoloriaeth gan y Cyngor Prydeinig i astudio sut i wella tir pori. Dwi wedi bod yn lwcus i fynd i Gymru annwyl bedair gwaith!*

10. **Ble mae eich hoff le yn y byd?**
    *Bethesda, yn Nyffryn Camwy. Ond mae Boedo (Buenos Aires) ac Aberystwyth yn fy nghalon i!*

# Dauganmlwyddiant Brwydr Tucumán

Roedd y 24ain o Fedi yn ddiwrnod o wyliau i'r Ariannin gyfan am y tro cyntaf eleni, a hynny er mwyn cofio brwydr bwysig oedd yn rhan o frwydr fwy am annibyniaeth i'r wlad. Yn San Miguel de Tucumán ar y dyddiad hwn yn y flwyddyn 1812, dan arweiniad y Cadfridog Manuel Belgrano, enillodd Byddin y Gogledd frwydr yn erbyn milwyr y brenin er bod ganddyn nhw ddwywaith gymaint o filwyr na byddin Belgrano. Roedd y fuddugoliaeth yn golygu na allai milwyr y brenin ymosod ar ogledd-ddwyrain yr Ariannin.




Ynghyd â Brwydr Salta (20 Chwefror 1813), caniataodd y fuddugoliaeth hon yn Tucumán yr Archentwyr i ddiffinio eu tiriogaeth.

# Cowbois Rhos Botwnnog



Braf oedd croesawu Cowbois Rhos Botwnnog i Ddyffryn Camwy ddechrau mis Medi. Cafodd y band ei ffurfio yn 2005 gan dri brawd o Ben Llŷn, Gogledd Cymru, sef Aled, Dafydd ac Iwan Hughes. Mae elfennau o ganu gwerin, gwlad a roc yn eu cerddoriaeth, ac maen nhw wedi addasu rhai caneuon gwerin Cymraeg hefyd. Maen nhw wedi bod yn canu mewn cyngherddau ledled Cymru ac mewn rhai ardaloedd yn Lloegr ers blynyddoedd bellach, ac mae eu cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn gyson ar Radio Cymru ac ar y sianel deledu Gymraeg, S4C. Ond hwn oedd y tro cyntaf iddyn nhw deithio mor bell!



Derbyniodd Cowbois nawdd gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Teithiau Tango a'r label recordio Sbrigyn Ymborth i gynnal cyfres o gyngherddau a gweithdai ym Mhatagonia, a Menter Patagonia oedd yn trefnu'r daith.

Prin fod y brodyr wedi camu oddi ar y bws yn Nhrelew cyn iddyn nhw ddechrau ar y gwaith, ac ar ôl cael eu gwynt atyn nhw yn y Gaiman rhaid oedd dychwelyd i Drelew er mwyn cael eu cyfweld ar raglen radio Tegai Roberts a Luned Gonzalez yn Radio Chubut. Roedd cyfle i wrandawyr y rhaglen gael blas ar ambell gân Cowbois Rhos Botwnnog, ond doedd dim rhaid iddyn nhw aros yn hir cyn cael cyfle i'w mwynhau nhw'n perfformio'n fyw. Daeth y cyfle hwnnw'r diwrnod canlynol wrth iddyn nhw berfformio'r emyn adnabyddus, 'Dwy Law yn Erfyn' yng Nghymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant yng Nghapel Bethlehem, Treorci. Ac wrth gwrs, roedd cyfle i ddod i adnabod rhai o bobl yr ardal dros baned o de a chacen neu ddwy yn y festri! Y noson honno llanwyd bwyty 'La Fonda' yn y Gaiman gan ddegau o bobl ar gyfer cyngerdd. Wrth i amrywiaeth o *pizzas* a phasta gael eu gweini a'u bwyta perfformiodd Cowbois Rhos Botwnnog set oedd yn cynnwys caneuon oddi ar eu tair albwm, ac roedd pawb yn amlwg yn mwynhau wrth i'r distawrwydd yn ystod y canu droi'n gymeradwyaeth.



Cafodd Cowbois Rhos Botwnnog y fraint o weithio gyda Hector Ariel Macdonald yn ei stiwdio, lle cawson nhw'r cyfle i ganu offerynnau oedd yn ddieithr iddyn nhw yn ogystal â chyfansoddi cerddoriaeth a chaneuon newydd. Bu'r tri hefyd yn gweithio gyda rhai o blant yr ardal, gan gynnal gweithdai yn Ysgol Feithrin y Gaiman, Ysgol Camwy, ac Ysgol yr Hendre.




Cafodd rhieni a chyfeillion y cyfle i weld ffrwyth y gweithdy yn yr Hendre mewn cyngerdd arbennig yn yr ysgol, lle ymunodd plant blynyddoedd 5 a 6 â'r Cowbois i ganu un o ganeuon y band, 'Bonheddwr Mawr o'r Bala, a fersiwn arbennig o 'Chwarelwr oedd fy nhaid' ar gyfer Diwrnod yr Athrawon.

Yn ystod eu hamser yma, cafodd y bechgyn o Ben Llŷn gyfle i wrando ar rai o gantorion Dyffryn Camwy yn canu hefyd wrth iddyn nhw fynychu ymarferion côr cymysg Ysgol Gerdd y Gaiman, a mwynhau perfformiadau pobl ifanc dawnus yr Ariannin yn Eisteddfod y Bobl Ifanc. Ymddangoson nhw ar lwyfan yr eisteddfod hon hefyd, gan ganu tair o'u caneuon i agor sesiwn ola'r cystadlu ar y dydd Sadwrn. A'r noson honno teithion nhw ar y bws dros y paith tua'r Andes, lle buon nhw'n gweithio'n galed am wythnos arall!

Bu'r Cowbois yn ffilmio rhywfaint o'u hymweliad â'r Ariannin, felly tybed a fyddwn ni'n gweld ambell wyneb cyfarwydd ar y sgrin fach – neu'r sgrin fawr – cyn bo hir...!

## Cornel y Dysgwyr *Rincon de aprenda Galés*

### Diwrnodau'r wythnos/ *Los días de la semana*



| | |
|---|---|
| Dydd Sul | Domingo |
| Dydd Llun | *Lunes* |
| Dydd Mawrth | *Martes* |
| Dydd Mercher | *Miércoles* |
| Dydd Iau | *Jueves* |
| Dydd Gwener | *Viernes* |
| Dydd Sadwrn | *Sabado* |
| Penwythnos | *Fin de semana* |

## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


PLAS HEDD
Complejo Turístico

Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.

(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*



Tŷ Te hynaf Gaiman.

Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED

www.teithiautango.co.uk

Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew

camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*



Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.

Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Cyw iâr a Mango wedi'u tro-ffrio - pryd lliwgar o fwyd at y gwanwyn

Cynhwysion:

llond llaw o shibwns (*cebule*) wedi'u torri
darn bach o sinsir ffres wedi gratio
1 clôf garlleg wedi'i dorri'n fân
450g cyw iâr wedi'i dorri yn stribedi hir a thenau
Eich dewis chi o lysiau wedi'u torri, er enghraifft pupur coch, pupur gwyrdd, madarch, cennin, moron, broccoli, winwns...
4 llwy fwrdd o olew
3 llwy fwrdd o saws soy
1 mango wedi'i dorri




Cynheswch hanner yr olew mewn padell ffrio fawr a ffriwch y cyw iâr ynddo gan droi'r darnau am tua 4-5 munud nes bod ychydig o liw arnyn nhw. Tynnwch y cyw iâr o'r badell ffrio a'u rhoi ar blât.

Yn y cyfamser, cynheswch weddill yr olew yn y badell ffrio ac ychwanegwch y shibwns, y sinsir a'r garlleg ato. Trowch y rhain am 30 eiliad cyn ychwanegu'r mango a'r llysiau gan eu troi i'w ffrio am funud arall.

Rhowch y cyw iâr yn ôl yn y badell ffrio ac ychwanegu'r saws soy (a saws tsili os dymunwch) at y gymysgedd. Trowch y cyfan i wneud yn siŵr fod y saws wedi cymysgu'n iawn, a choginio am ddwy funud arall nes bod y cyw iâr yn dyner a'r llysiau wedi meddalu rhywfaint.

Bwytewch gyda reis neu nŵdls.




# Diwrnod Owain Glyndŵr

Daeth cyfle i Gymru gofio un o'i harwyr ym mis Medi.

Cafodd Owain ap Gruffudd Fychan (Owain Glyndŵr) ei eni tua'r flwyddyn 1354, ac roedd yn ddisgynnydd i dywysogion Cymru. Enw ei gartref enwog oedd Sycharth, yn Sir Ddinbych. Yn 1400 roedd ei gymydog, Reginald Grey, sef Arglwydd Rhuthun, wedi dwyn darn o dir oedd yn perthyn i Owain. Pan wrthododd Senedd Lloegr ei helpu i gael y tir yn ôl, ymosododd Owain ar dref Rhuthun a'i llosgi i'r llawr.

Ar yr 16eg o Fedi 1400 cafodd Owain Glyndŵr ei gyhoeddi yn Dywysog Cymru yng Nglyndyfrdwy a lledodd gwrthryfel drwy'r wlad i geisio ennill annibyniaeth i Gymru. Cipiodd gestyll Harlech ac Aberystwyth, ac yn 1404 sefydlodd Owain Senedd i Gymru ym Machynlleth - mae'r adeilad dal yno heddiw.



Er iddo lwyddo i ennill tir i Gymru ni chafodd gweledigaeth Owain ar gyfer i wlad ei gwireddu, ac ebryn 1413 roedd y gwrthryfel wedi methu. Ond doedd neb yn gwybod lle'r oedd Owain Glyndŵr! Hyd heddiw does neb yn gwybod lle na sut iddo farw. Does dim un Cymro wedi bod yn Dywysog Cymru ers hynny, ac mae Owain Glyndŵr yn cael ei ystyried yn arwr cenedlaethol. Mae ei fanwr yn dal i gael ei defnyddio yn symbol o genedlaetholdeb.

Dydy Diwrnod Owain Glyndŵr ddim yn wyliau - mae'n rhaid i bawb fynd i'r gwaith ac i'r ysgol. Ond roedd yr 16eg o Fedi yn gyfle i gofio am Owain Glyndŵr a'r hyn a wnaeth dros Gymru.

# Cwestiynau Clecs Camwy

Atebwch y cwestiynau canlynol.
Mae'r atebion i gyd yn y rhifyn hwn o Clecs Camwy!

1. Beth yw testun chwilair y plant?

2. Ble cafodd Eisteddfod y Bobl Ifanc ei chynnal?

3. Ble oedd Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant ym mis Medi?

4. Faint o gyw iâr sydd ei angen ar gyfer y rysáit?

5. Beth yw enw'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth Y Fedal yn Eisteddfod y Bobl Ifanc?

6. Beth ydy hoff fwyd Ricardo Irianni?

7. Pwy drefnodd Cymanfa Ganu Eisteddfod y Bobl Ifanc?

8. Llun pwy sy'n rhaid i'r plant ei liwio?

9. Pa emyn ganodd Cowbois Rhos Botwnnog yn y gymanfa ganu?

10. Pryd ddigwyddodd Brwydr Salta?

*Bydd gwobr i'r enillydd, felly anfonwch eich atebion at Lois Dafydd cyn 25 Hydref. Pob hwyl!*

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| dan ei sang | ***lleno de gente*** | gwrthryfel | ***rebelión*** |
| rhanbarth(au) | ***región(es)*** | gweledigaeth | ***visión*** |
| teyrnged | ***homenaje*** | cenedlaetholdeb | ***patriotismo*** |
| yn brydlon | ***puntual*** | senedd | ***parlamento*** |
| oriau mân | ***la madrugada*** | gweithdy | ***taller*** |
| yn y cyfamser | ***mientras tanto*** | brwydr | ***batalla*** |
| disgynnydd | ***descendiente*** | cymeradwyaeth | ***aplauso*** |

# Cornel y Plant

## Llongyfarchiadau i Valentina Pires, Trelew am liwio Jac y Do!

### Lliwiwch Bob y Bildar

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd erbyn 30 Hydref 2012 am gyfle i ennill gwobr!



## Chwilair Y Corff

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| b | h | r | h | ll | a | w | o | b | l | t | r | m |
| a | p | a | f | n | g | th | b | r | a | i | ch | h |
| ff | d | s | m | th | w | e | m | d | t | h | p | n |
| u | s | f | t | r | o | e | d | s | c | e | g | dd |
| m | h | dd | r | f | s | ph | r | ff | l | d | s | g |
| f | u | t | w | b | e | t | n | h | u | th | l | i |
| b | h | s | y | h | d | c | o | e | s | r | h | p |
| m | p | e | n | d | o | l | b | g | t | ng | m | l |
| f | c | ff | w | b | n | t | j | r | ll | e | d | f |

Pen
Clust
Braich
Coes
Trwyn
Ceg
Troed
Llaw

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198